Snowdonia Pumped Hydro

# Diwygiad Ansylweddol

## Gwerthusiad Amgylcheddol



62280574_NMA
Medi 2023

Cyhoeddus

Snowdonia Pumped Hydro

# Diwygiad Ansylweddol

## Gwerthusiad Amgylcheddol

**Math o ddogfen (fersiwn): Cyhoeddus**

**Rhif Prosiect 62280574**

**Ein Cyfeirnod Ni. 62280574_NMA**

**Dyddiad: Medi 2023**

WSP

WSP House
70 Chancery Lane
London
WC2A 1AF

Phone: +44 20 7314 5000

WSP.com

# Rheoli ansawdd

| Rhifyn/adolygiad | Y rhifyn cyntaf | Adolygiad 1 |
|---|---|---|
| Sylwadau | Drafft | Cyflwyno |
| Dyddiad | Awst 23 | Medi 23 |
| Paratowyd gan | Lluosog | Lluosog |
| Llofnod | | |
| Gwiriwyd gan | C Anderson | C Anderson |
| Llofnod | | |
| Awdurdodwyd gan | G Bishop | G Bishop |
| Llofnod | | |
| Rhif prosiect | 62280574 | |
| Rhif yr adroddiad | NMA | |
| Cyfeirnod ffeil | NMA | |

# Cynnwys


1 Gwerthusiad Amgylcheddol 1

2 Gofyniad am Newid Ansylweddol 2

2.1 Cais am Newid Ansylweddol 2

2.2 Gwybodaeth Ategol 2

3 Gwerthusiad Amgylcheddol 3

4 Adolygiad o Bolisi Cynllunio 14

4.1 Gwerthusiad 2021 14

4.2 Gwerthusiad 2023 15

4.2.1 Polisi Cenedlaethol 15

4.2.1.1 Datganiadau Polisi Ynni Cenedlaethol 15

4.2.1.2 Canllawiau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel 15

4.2.1.3 Cymru’r Dyfodol (Mabwysiadwyd Chwefror 2021) 15

4.2.1.4 Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11 (Mbwysiadwyd Chwefror 2021) 15

4.2.1.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Mabwysiadwyd Mehefin 2015) 15

4.2.1.6 Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN15) a Ddiweddarwyd 15

4.2.1.7 Nodiadau Cyngor Technegol Perthnasol Eraill: 16

4.2.2 Polisi Cynllunio Lleol 16

4.2.2.1 Canllawiau Cynllunio Atodol Tirwedd Llechi Safle Treftadaeth y Byd Gogledd-orllewin Cymru (A fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2021) 16

4.2.3 Crynodeb 17

5 Casgliad 18

# Gwerthusiad Amgylcheddol

Cyhoeddus

# 1 Gwerthusiad Amgylcheddol

Cyflwynodd Snowdonia Pumped Hydro Limited (SPH) gais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) ar gyfer adeiladu a gweithredu cynllun storfa bwmpio gyda chapasiti allbwn o 99.9 megawat (MW) yn chwareli Glyn Rhonwy a Chwarel Fawr ger Llanberis (‘y Datblygiad’) ym mis Hydref 2015.

Cafodd Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy 2017 (y Gorchymyn) ei wneud ar 8 Mawrth 2017 a daeth i rym ar 29 Mawrth 2017, a roddodd ganiatâd ar gyfer y Datblygiad.[1]

Mae Gofyniad 2 o dan Ran 2 y Gorchymyn yn nodi’r canlynol o dan ‘Terfynau Amser’:

*“Rhaid i’r datblygiad awdurdodedig gael ei gychwyn o fewn 5 mlynedd i’r dyddiad y daw’r Gorchymyn hwn i rym.”*

Mae cais am newid ansylweddol i’r Gorchymyn yn cael ei gyflwyno am estyniad amser ar gyfer cychwyn datblygiad awdurdodedig. Mae’r Adolygiad hwn o’r Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol (EIA) yn rhoi trosolwg o’r posibilrwydd o effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd neu wahanol yn sgil y newid ansylweddol i’r Gorchymyn, o’i gymharu â’r Datganiad Amgylcheddol ardystiedig (AECOM, 2015) a gyflwynwyd gyda’r cais am y Gorchymyn.

[1] Sylwch y cafodd Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy (Cywiriad) 2017 ei wneud ar 5 Hydref 2017 a daeth i rym ar 6 Hydref 2017, a oedd yn cywiro gwallau a hepgoriadau yn y Gorchymyn.

# 2 Gofyniad am Newid Ansylweddol

## 2.1 Cais am Newid Ansylweddol

Ers i'r Gorchymyn gael ei roi yn 2017, mae SPH wedi bwrw ymlaen â'i gynlluniau i ddechrau adeiladu yn unol â'r DCO. Ar ôl cynnal proses dendro gystadleuol yn dilyn gwaith dylunio peirianyddol helaeth, mae wedi dod yn amlwg, oherwydd y cynnydd diweddar mewn chwyddiant mewn deunyddiau adeiladu a llafur, bod economeg y prosiect wedi newid; bydd penderfyniad buddsoddi terfynol y prosiect nawr yn dibynnu ar y Cynllun Cymhelliant Storio Ynni Mawr a Hyd Hir sydd ar y gweill gan Lywodraeth y DU sydd i fod i gael ei roi ar waith yn 2024. O ganlyniad, mae'n annhebygol bellach y bydd SPH yn gallu dechrau'r datblygiad awdurdodedig cyn i'r Gorchymyn ddod i ben ar 29 Mawrth 2024.

Felly, ceisir newid ansylweddol i'r Gorchymyn, sy'n ceisio ymestyn y terfyn amser ar gyfer cychwyn y datblygiad awdurdodedig yn ffurfiol 24 mis i 29 Mawrth 2026.

Ers y gymeradwyaeth NMA flaenorol, mae SPH wedi dechrau gyda chomisiynu monitro cyn dechrau tymor hir. Mae hyn yn cynnwys 12 mis o fonitro cyn dechrau (yn unol â Gofyniad 9) a monitro ansawdd aer sylfaenol o 6 mis (yn unol â Gofyniad 7). Mae hyn wedi cynnwys cysylltu a chydweithio ag adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd. Mae SPH hefyd wedi comisiynu arolwg cynefinoedd Cam 1 ar ardal a phlatfformau'r gronfa ddŵr is.

Nid oes unrhyw newidiadau eraill yn cael eu ceisio i'r Gorchymyn fel rhan o'r cais am newid ansylweddol. Er y gallai'r newid hwn ohirio dyddiad y comisiynu terfynol (fel y'i diffinnir yn y Gorchymyn), mae oes weithredol ddisgwyliedig y datblygiad awdurdodedig (fel yr aseswyd yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig) yn aros yr un fath.

## 2.2 Gwybodaeth Ategol

Mae Arfarniad Amgylcheddol 2023 wedi cael ei gynnal i benderfynu a fyddai estyniad pellach i ddechrau'r datblygiad awdurdodedig yn y Gorchymyn o 24 mis yn debygol o arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol newydd neu wahanol ar gyfer pob pwnc amgylcheddol yn yr asesiadau a gyflwynir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig (AECOM, 2015). Mae hyn wedi'i gynnwys yn Adran 3.

Cynhaliwyd adolygiad o'r polisi cynllunio hefyd ac mae wedi'i gynnwys yn Adran 4.

Cynhaliwyd adolygiad o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ardystiedig hefyd, ac adroddir ar hyn ar wahân.

# 3 Gwerthusiad Amgylcheddol

Mae’r pynciau amgylcheddol canlynol wedi cael eu hystyried, sydd yr un fath â’r rheini sy’n cael sylw yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig:

- Asesiad o’r Dirwedd a’r Effaith Weledol (ES Pennod 6);
- Ecoleg (ES Pennod 7);
- Daeareg a chyflwr y tir (ES Pennod 8);
- Adnoddau dŵr (ES Pennod 9);
- Perygl Llifogydd (ES Pennod 10);
- Archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol (ES Pennod 11)
- Trafnidiaeth (ES Pennod 12);
- Sŵn a dirgrynu (ES Pennod 13);
- Ansawdd aer (Pennod 14);
- Nodweddion economaidd-gymdeithasol (ES Pennod 15); ac
- Effeithiau cronnus (ES Pennod 17).

Roedd Arfarniad Amgylcheddol 2021 wedi ymchwilio i unrhyw newidiadau sylweddol tebygol yn y pynciau a amlinellir uchod, felly mae Tabl 3.1 yn rhoi trosolwg sy’n ystyried casgliadau’r Datganiad Amgylcheddol ardystiedig ac asesiad 2021 a oedd yn cefnogi’r Cais NMA blaenorol.

Nid oedd Pennod 16 Rheoli Amgylcheddol a Phennod 18 yr Atodlen Lliniaru yn destun Arfarniad Amgylcheddol 2021, ond ystyrir eu bod yn ddilys yn yr Arfarniad Amgylcheddol 2023 hwn.

**Tabl 3.1 Adolygiad o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol**

| Pwnc | Arfarniad Amgylcheddol 2021 | Casgliad 2021 | Adolygiad o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol 2023 |
|---|---|---|---|
| **Y Dirwedd ac Elfennau Gweledol (Pennod 6)** | Mae Pennod 6 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn dod i'r casgliad na fydd unrhyw effeithiau sylweddol parhaol ar Agweddau LANDMAP, Ardaloedd Cymeriad Tirwedd na dynodiadau tirwedd yn ardal yr astudiaeth oherwydd gweledadd cyfyngedig cydrannau'r datblygiad yn ardal ehangach yr astudiaeth a lefel a natur y mesurau lliniaru a gynigir fel rhan gynhenid o'r Datblygiad, gan helpu'r datblygiad i integreiddio ag ardal Glyn Rhonwy. Nodwyd effaith gweddilliol niweidiol sylweddol barhaol ar dderbynyddion yng Ngolygfan 7 oherwydd agosrwydd yr olygfan at yr argae a'r gronfa ddŵr yn Ch1 ond ni nodwyd unrhyw effeithiau gweledol gweddilliol sylweddol ar gyfer y golygfannau eraill. Derbyniwyd y casgliadau hyn fel rhan o benderfyniad cyffredinol y DCO ac nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r asesiad hwn.<br><br>Mae rhywfaint o wybodaeth wedi'i diweddaru bellach ar gael ers i Ddatganiad Amgylcheddol 2015 gael ei baratoi, gan gynnwys:<br>▪ Polisi – mae gwahanol agweddau ar bolisi a chanllawiau wedi cael eu diweddaru ers Datganiad Amgylcheddol 2015 (h.y. mae Polisi Cynllunio Cymru wedi cael ei ddiweddaru, yn ogystal â rhai Nodiadau Cyngor Technegol). Fodd bynnag, yn gyffredinol mae polisi wedi aros yn gymharol statig ac mae'r egwyddorion arweiniol o drydydd argraffiad GLVIA yn dal yn ddilys ac yn annhebygol o fod yn berthnasol i'r estyniad amser arfaethedig.<br>▪ Data a chanfyddiadau – Efallai fod rhai o'r ffynonellau gwybodaeth ategol ym mhennod y Datganiad Amgylcheddol wedi cael eu diweddaru ers Datganiad Amgylcheddol 2015 ond mae'r wybodaeth yn debygol o fod yn briodol i gefnogi dealltwriaeth sylfaenol ar gyfer yr estyniad amser arfaethedig e.e. Mae derbynyddion a dyfarniadau ar effaith ar adeg Datganiad Amgylcheddol 2015 yn debygol o aros yn briodol; h.y. mae nodweddion y dirwedd yn dal yn ddilys.<br>▪ Derbynyddion gweledol – Efallai fod rhai o'r ffynonellau gwybodaeth ategol ym mhennod y Datganiad Amgylcheddol wedi cael eu diweddaru ers Datganiad Amgylcheddol 2015 ond oherwydd maint bychan y datblygiadau preswyl / masnachol yn yr ardal, mae'r dyfarniadau ZoI ac effaith weledol gwreiddiol yn debygol o fod yn gywir ar gyfer yr estyniad amser arfaethedig.<br>▪ Hawliau Tramwy Cyhoeddus – Efallai y bydd rhai mân newidiadau i Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn yr ardal ers Datganiad Amgylcheddol 2014, ond mae'r rhan fwyaf o'r dirwedd a'r canfyddiadau gweledol yn dal yn briodol i nodweddu effeithiau. | Nid yw'r estyniad amser arfaethedig yn effeithio ar y prosesau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu ar gyfer y datblygiad awdurdodedig. O ystyried hyn, ni fydd ymestyn y cyfnod y gallai'r gwaith o adeiladu'r datblygiad awdurdodedig ddechrau 24 mis yn arwain at effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol o'u cymharu ag asesiadau blaenorol. Felly, ystyrir bod yr asesiadau a gyflwynir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn parhau i fod yn ddilys. | Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol mewn agweddau LANDMAP, Ardaloedd Cymeriad Tirwedd na dynodiadau tirwedd. Yn ogystal, ni fu unrhyw newidiadau deddfwriaethol na pholisi perthnasol.<br><br>Ni fydd unrhyw effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol yn digwydd o ganlyniad i'r estyniad amser. Felly, ystyrir bod casgliadau ardystiedig y Datganiad Amgylcheddol yn parhau i fod yn ddilys. |

| Pwnc | Arfarniad Amgylcheddol 2021 | Casgliad 2021 | Adolygiad o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol 2023 |
|---|---|---|---|
| | Ni fyddai'r estyniad amser arfaethedig yn cyflwyno unrhyw effeithiau ar adeiladu, gweithredu neu ddatgomisiynu posibl newydd ac ni fyddai'r amgylchedd llinell sylfaen yn newid yn sylweddol dros y cyfnod ymestyn o 24 mis.<br><br>Ar ben hynny, byddai'r mesurau lliniaru a sicrhawyd mewn Cod Ymarfer Adeiladu a'r egwyddorion dylunio sy'n helpu'r datblygiad i integreiddio ag ardal Glyn Rhonwy er mwyn osgoi neu leihau effeithiau sylweddol yn ystod camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad yn parhau i fod yn berthnasol petai estyniad amser yn cael ei roi cyn dechrau'r datblygiad awdurdodedig. | | |
| **Ecoleg (Pennod 7)** | Penderfynodd y Datganiad Amgylcheddol y byddai'r Datblygiad yn cael effeithiau niweidiol gweddilliol o ran adeiladu a gweithredu ar rai derbynyddion ecolegol sensitif, ond ystyriwyd nad oedd yr effaith yn sylweddol. Cynhaliwyd arolwg cynefinoedd cam 1 o ardal Ch1 yn 2020 ac nid yw hyn wedi cadarnhau unrhyw newidiadau i'r cynefinoedd yn y lleoliad hwn. Bydd arolygon cyn adeiladu yn cael eu cynnal lle bo angen a bydd arferion gweithio da yn cael eu dilyn bob amser.<br><br>Cynhaliwyd arolwg clwydo ystlumod o'r twneli mewnol yn ystod 2019/2020 ac roedd hyn yn cadarnhau nad yw'r boblogaeth a'r lleoliadau ystlumod wedi newid yn sylweddol. Felly, mae'r strategaeth lliniaru ystlumod flaenorol yn dal yn ddilys, a bydd cais trwydded newydd ar gyfer eithrio ystlumod yn cael ei roi ar waith cyn unrhyw waith cyn adeiladu.<br><br>Ystyrir bod yr agweddau canlynol ar y Datganiad Amgylcheddol heb eu newid:<br>▪ Dynodiad Statudol (Newidiadau) - Mae'n ymddangos nad yw safleoedd dynodedig statudol wedi newid (roedd y golygiadau SoDdGA lleol diwethaf rhwng 2006 a 2009 h.y. cyn y paratoadau ar gyfer y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu).<br>▪ Dynodiadau Statudol (Newydd) – Mae gwiriad lefel uchel byr wedi dangos nad oes unrhyw ddynodiadau statudol newydd.<br><br>Nid oes diweddariad manwl i'r waelodlin ar draws yr ardal gyfan wedi cael ei gynnal. Fodd bynnag, nid yw arolwg cynefin a gynhaliwyd yn Ch1 (cronfa ddŵr uwch) wedi nodi unrhyw newid i'r arolygon a gynhaliwyd i gefnogi'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu fel y'i cyflwynwyd. Felly mae'r mesurau lliniaru a'r Gofynion yn dal yn ddilys. | Bydd arolygon safle cyn adeiladu yn cael eu cynnal i gadarnhau nad oes unrhyw amodau gwaelodlin sylweddol yn amlwg o'r rheini sydd wedi'u nodi yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig. Bydd arolygon cyn adeiladu yn cael eu cynnal lle bo angen a bydd arferion gweithio da yn cael eu dilyn bob amser.<br><br>Ni nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol newydd na gwahanol ac mae'r Datganiad Amgylcheddol a'r NSER yn dal yn ddilys ar gyfer yr estyniad amser arfaethedig.<br><br>Nid yw'r estyniad amser arfaethedig yn effeithio ar y prosesau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu ar gyfer y datblygiad awdurdodedig. O ystyried hyn, ni fydd ymestyn y cyfnod y gallai'r gwaith o adeiladu'r datblygiad awdurdodedig ddechrau 24 mis yn arwain at effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol o'u cymharu ag asesiadau blaenorol. Felly, ystyrir bod yr asesiadau a gyflwynir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn parhau i fod yn ddilys. | Dim dynodiadau newydd na newidiadau sylweddol yn y nodweddion bioamrywiaeth fel y nodir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig.<br><br>Cynhaliwyd arolwg cynefinoedd Cam 1 yn Ch1 i gefnogi cais NMA 2021 ac mae arolwg dilynol o Ch6/Ch7 yn 2022 (sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A) wedi nodi dim newidiadau sylweddol i'r prif ardaloedd gweithio.<br><br>Adroddir ar agweddau sy'n gysylltiedig â'r Adroddiad Dim Effeithiau Sylweddol (NSER) ar wahân.<br><br>Ni fydd unrhyw effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol yn digwydd o ganlyniad i'r estyniad amser. Felly, ystyrir bod casgliadau'r Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn dal yn ddilys, gan gynnwys yr holl fesurau lliniaru arfaethedig a fydd yn cael eu sicrhau yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. |

| Pwnc | Arfarniad Amgylcheddol 2021 | Casgliad 2021 | Adolygiad o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol 2023 |
|---|---|---|---|
| | Ar ben hynny, mae arolygon ystlumod wedi cael eu cynnal yn 2019/2020 ac mae'r rhain hefyd wedi dod o hyd i newidiadau sylfaenol cyfyngedig i arolygon blaenorol. Mae mesurau lliniaru fel y'u sicrheir yn y DCO a gymeradwywyd yn dal yn ddilys. O ran cynefinoedd eraill sy'n gysylltiedig â Ch6 a'r ardal o gwmpas Llyn Padarn, nid oes diweddariad manwl wedi'i wneud i'r amgylchedd gwaelodlin. Fodd bynnag, wrth ystyried maint yr arwyddocâd a nodwyd yn 2015, ar sail canlyniadau'r arolwg, ni ystyrir bod amodau gwaelodlin wedi newid i'r graddau fyddai'n arwain at effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol yn deillio o'r estyniad amser arfaethedig.<br><br>Ni fyddai'r estyniad amser arfaethedig yn cyflwyno unrhyw effeithiau ar adeiladu, gweithredu neu ddatgomisiynu posibl newydd ac ni fyddai'r amgylchedd llinell sylfaen yn newid yn sylweddol dros y cyfnod ymestyn o 24 mis.<br><br>Ar ben hynny, byddai'r mesurau lliniaru sydd wedi'u sicrhau mewn strategaeth amgylcheddol ar gyfer y Datblygiad, drwy weithredu Cod Ymarfer Adeiladu a Chynllun Rheoli Cynefinoedd i osgoi neu i leihau effeithiau sylweddol yn ystod camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad, yn parhau i fod yn berthnasol pe bai estyniad o amser cyn dechrau'r datblygiad awdurdodedig. | | |
| **Daeareg a Chyflwr y Tir (Pennod 8)** | Mae Pennod 8 yn crynhoi mai'r unig nodwedd ddaearegol o bwys cenedlaethol yn yr ardal yw rhan o SDdGA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn, sydd i fyny'r afon o'r Datblygiad, ac felly ni fyddai'r Datblygiad yn effeithio arni. Ni ellir diystyru'r posibilrwydd o bresenoldeb halogiad tir lleol ac os deuir o hyd i unrhyw ddeunyddiau o'r fath, byddai'r rhain yn cael eu rheoli'n briodol drwy strategaethau adfer priodol a ddatblygwyd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd drwy Ofyniad DCO. Yn gyffredinol, deuir i'r casgliad na fyddai'r Datblygiad yn cael unrhyw effeithiau sylweddol ar neu o ganlyniad i amodau'r tir a daeareg.<br><br>Mae cyflwr cyffredinol y tir a nodweddion cefndir halogiad yn debygol o barhau i fod yn ddilys ac yn briodol ar gyfer yr estyniad amser arfaethedig. Ystyrir bod y ddaeareg leol yn sefydlog a bydd yn parhau i fod o sensitifrwydd isel, fel yr amlinellir yn y Datganiad Amgylcheddol, ar gyfer hyd yr estyniad amser arfaethedig.<br><br>Ni fyddai'r estyniad amser arfaethedig yn cyflwyno unrhyw effeithiau ar adeiladu, gweithredu neu ddatgomisiynu posibl newydd ac ni ddisgwylir i'r amgylchedd llinell sylfaen newid yn sylweddol dros y cyfnod ymestyn o 24 mis. | Nid yw'r estyniad amser arfaethedig yn effeithio ar y prosesau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu ar gyfer y datblygiad awdurdodedig. O ystyried hyn, ni fydd ymestyn y cyfnod y gallai'r gwaith o adeiladu'r datblygiad awdurdodedig ddechrau 24 mis yn arwain at effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol o'u cymharu ag asesiadau blaenorol. Felly, ystyrir bod yr asesiadau a gyflwynir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn parhau i fod yn ddilys. | Ni fydd unrhyw effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol yn digwydd o ganlyniad i'r estyniad amser. Felly, ystyrir bod casgliadau'r Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn dal yn ddilys, gan gynnwys yr holl fesurau lliniaru arfaethedig a fydd yn cael eu sicrhau yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. |

| Pwnc | Arfarniad Amgylcheddol 2021 | Casgliad 2021 | Adolygiad o’r Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol 2023 |
|---|---|---|---|
| | Ar ben hynny, mae’r mesurau lliniaru, digolledu a gwella sydd wedi’u nodi yn Adran 8.10 a’r Cod Ymarfer Adeiladu yn ystod y gwaith o adeiladu, gweithredu a datgomisiynu’r Datblygiad yn parhau i fod yn berthnasol petai estyniad amser yn digwydd cyn dechrau’r datblygiad awdurdodedig. | | |
| **Adnoddau Dŵr (Pennod 9)** | Daeth Pennod 9 y Datganiad Amgylcheddol i’r casgliad nad oedd dŵr daear yn gwneud cyfraniad pwysig at adnoddau dŵr rhanbarthol na lleol ac na fydd y Datblygiad yn cael unrhyw effaith ar lif dŵr daear, felly ni fydd yn effeithio ar ffynhonnau a thyllau turio. Bydd mesurau lliniaru’n cael eu rhoi ar waith o amgylch ardaloedd adeiladu drwy God Ymarfer Adeiladu i atal dŵr ffo halogedig rhag cael ei ollwng i gyrsiau dŵr wyneb, wedi’i ategu gan Gynllun Rheoli Dŵr (WTMP), Cynllun Atal Llygredd (PPP) a Chynllun Rheoli Silt (SMP). Byddai effeithiau’r Datblygiad ar adnoddau dŵr yn ystod y camau adeiladu a gweithredu yn niweidiol fach i fach iawn ac felly nid ydynt yn sylweddol.<br><br>Mae’r estyniad amser arfaethedig o 24 mis yn annhebygol o gyflwyno amodau llinell sylfaen newydd (cyrsiau dŵr newydd) ac ni fydd yn cyflwyno effeithiau adeiladu neu weithredu posibl newydd (a fyddai’n arwain at effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol o’u cymharu â’r rheini a nodwyd yn flaenorol).<br><br>Ni fyddai’r estyniad amser arfaethedig yn newid y mesurau lliniaru sydd eisoes wedi’u gwreiddio yn y datblygiad awdurdodedig er mwyn lleihau gofynion dŵr, rhyngweithio â chyrsiau dŵr, lleihau halogiad ac osgoi dŵr wyneb ffo. Ar ben hynny, byddai’r mesurau lliniaru sydd wedi’u nodi yn y WTMP, PPP a’r SMP yn dal yn berthnasol pe bai estyniad amser yn cael ei roi i ddechrau’r datblygiad awdurdodedig.<br><br>Byddai gofynion unrhyw Drwyddedau Amgylcheddol sy’n ymwneud ag ansawdd ac adnoddau dŵr hefyd yn parhau i fod yn berthnasol pe rhoddid<br>estyniad i’r cyfnod amser ar gyfer cychwyn y datblygiad awdurdodedig. | Nid yw’r estyniad amser arfaethedig yn effeithio ar y prosesau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu ar gyfer y datblygiad awdurdodedig. O ystyried hyn, ni fydd ymestyn y cyfnod y gallai’r gwaith o adeiladu’r datblygiad awdurdodedig ddechrau 24 mis yn arwain at effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol o’u cymharu ag asesiadau blaenorol. Felly, ystyrir bod yr asesiadau a gyflwynir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn parhau i fod yn ddilys. | Mae’r Ymgeisydd wedi ymgymryd â 12 mis o samplu ansawdd dŵr cyn dechrau (fel y’i sicrheir drwy Ofyniad 9). Mae hyn wedi cynnwys cyflenwadau dŵr preifat (gan weithio ar y cyd ag adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd) ac o leoliadau y cytunwyd arnynt ar gyrff dŵr presennol. Mae’r adroddiad samplu dŵr cyn dechrau wedi’i gynnwys yn Atodiad B ac mae’n dod i’r casgliad nad oes unrhyw newidiadau sylweddol i’r samplu a wnaed i gefnogi’r Datganiad Amgylcheddol ardystiedig.<br><br>Mewn perthynas â nodweddion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, bu tri diweddariad i’r data diweddaraf sydd ar gael, sef:<br>• Dosbarthiad WFD Llyn Padarn: Ansawdd Cemegol wedi newid o dda i uchel.<br>• Dosbarthiad WFD Afon Seiont: Statws ecolegol wedi newid o dda i gymedrol. Statws cemegol cyfredol wedi newid i uchel o dda.<br>• Dosbarthiad WFD Afon Gwyrfai: Ansawdd Cemegol wedi newid o dda i uchel.<br><br>Ar sail yr uchod, ystyrir nad oes unrhyw newidiadau sylweddol newydd i’r asesiad adnoddau dŵr a bod y mesurau lliniaru arfaethedig (sef y Cynllun Rheoli Dŵr a sicrhawyd drwy Ofyniad 9) yn dal yn ddilys ac yn briodol. Felly, ystyrir bod casgliadau’r Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn dal yn ddilys, gan gynnwys yr holl fesurau lliniaru arfaethedig a fydd yn cael eu sicrhau yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. |
| **Perygl Llifogydd (Pennod 10)** | Mae Pennod 10 y Datganiad Amgylcheddol yn dangos bod risgiau posibl yn ystod y camau adeiladu a gweithredu o lifogydd dŵr daear, llifogydd glawol a llifogydd o’r draeniau presennol sy’n gofyn am ystyriaeth yn nyluniad manwl y safle, yr adeiladau, | Nid yw’r estyniad amser arfaethedig yn effeithio ar y prosesau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu ar gyfer y datblygiad awdurdodedig. O ystyried hyn, ni fydd ymestyn y | Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol newydd i’r parthau perygl o lifogydd na’r derbynyddion fel y nodir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig neu gais NMA 2021. |

| Pwnc | Arfarniad Amgylcheddol 2021 | Casgliad 2021 | Adolygiad o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol 2023 |
|---|---|---|---|
| | systemau draenio dŵr wyneb a'r cronfeydd dŵr. Fodd bynnag, mae'n bosibl lliniaru'r risgiau a nodwyd drwy reoli'r safle'n briodol yn ystod y cam adeiladu ac egwyddorion dylunio priodol ar gyfer y cam gweithredu. Bydd risgiau llifogydd yn cael eu hadolygu yn ystod y cam dylunio manwl, gan ystyried unrhyw wybodaeth bellach am gyflwr y safle, draenio neu iteriadau o'r dyluniad i sicrhau bod yr holl risgiau llifogydd wedi cael eu lliniaru'n ddigonol yn y dyluniad terfynol. | cyfnod y gallai'r gwaith o adeiladu'r datblygiad awdurdodedig ddechrau 24 mis yn arwain at effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol o'u cymharu ag asesiadau blaenorol. Felly, ystyrir bod yr asesiadau a gyflwynir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn parhau i fod yn ddilys. | Ni fydd unrhyw effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol yn digwydd o ganlyniad i'r estyniad amser. Felly, ystyrir bod casgliadau'r Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn dal yn ddilys, gan gynnwys yr holl fesurau lliniaru arfaethedig a fydd yn cael eu sicrhau yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. |
| **Archaeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol (Pennod 11)** | Mae Pennod 11 y Datganiad Amgylcheddol yn dod i'r casgliad y bydd yr holl effeithiau ar asedau treftadaeth yn cael eu cyfyngu i'r cam adeiladu gyda 24 o asedau neu grwpiau o asedau y gallai'r Datblygiad effeithio arnynt. Ystyrir bod arwyddocâd effaith y Datblygiad ar archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol yn niweidiol ganolig ac felly mae'n arwyddocaol. Mae'r mesurau lliniaru a argymhellir yn cynnwys cofnodi adeiladau, arolwg o'r dirwedd, cloddio a chofnodi archeolegol, a monitro archeolegol.<br><br>Mae rhywfaint o wybodaeth wedi'i diweddaru bellach ar gael ers i Ddatganiad Amgylcheddol 2015 gael ei baratoi, gan gynnwys:<br>▪ Polisi – efallai fod rhywfaint o'r polisi a'r canllawiau ym Mhennod 11 wedi cael eu diweddaru ers Datganiad Amgylcheddol 2015 (er enghraifft, Polisi Cynllunio Cymru nawr yn ei 10fed argraffiad, Rhagfyr 2018) ond mae'n annhebygol y bydd y rhain yn ymwneud â'r estyniad amser arfaethedig.<br>▪ Nid yw dyraniad arfaethedig safle UNSECO wedi'i roi ar waith eto, ond ni fyddai hyn yn newid casgliadau pennod y Datganiad Amgylcheddol.<br><br>Ni fyddai'r estyniad amser arfaethedig yn cyflwyno unrhyw effeithiau ar adeiladu, gweithredu neu ddatgomisiynu posibl newydd ac ni ddisgwylir i'r amgylchedd llinell sylfaen newid yn sylweddol dros y cyfnod ymestyn o 24 mis.<br><br>Ar ben hynny, byddai'r mesurau lliniaru a nodir yn Adran 11.8 i gyfyngu ar yr effeithiau ar archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol yn ystod camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad yn parhau i fod yn berthnasol pe bai estyniad amser yn cael ei wneud i ddechrau'r datblygiad awdurdodedig, gan gynnwys ymgynghori â'r Uwch Archaeolegydd Cynllunio ar gyfer Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd a'r cynghorydd archeolegol i Gyngor Gwynedd, yn ôl yr angen. | Nid yw'r estyniad amser arfaethedig yn effeithio ar y prosesau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu ar gyfer y datblygiad awdurdodedig. O ystyried hyn, ni fydd ymestyn y cyfnod y gallai'r gwaith o adeiladu'r datblygiad awdurdodedig ddechrau 24 mis yn arwain at effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol o'u cymharu ag asesiadau blaenorol. Felly, ystyrir bod yr asesiadau a gyflwynir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn parhau i fod yn ddilys. | Paratowyd Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig wedi'i ddiweddaru (yn unol â Gofyniad 7 a 21) (a geir yn Atodiad C). Nid yw hyn wedi nodi unrhyw newidiadau sylweddol newydd i'r derbynyddion treftadaeth archeolegol neu ddiwylliannol fel y nodir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig neu gais NMA 2021.<br><br>Ni fydd unrhyw effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol yn digwydd o ganlyniad i'r estyniad amser. Felly, ystyrir bod casgliadau'r Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn dal yn ddilys, gan gynnwys yr holl fesurau lliniaru arfaethedig a fydd yn cael eu sicrhau yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. |
| **Trafnidiaeth (Pennod 12)** | Mae Pennod 12 y Datganiad Amgylcheddol yn dod i'r casgliad y gellir cynnwys holl draffig y Datblygiad ar y rhwydwaith ffyrdd lleol heb effeithio ar | Nid yw'r estyniad amser arfaethedig yn effeithio ar y prosesau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu ar gyfer y datblygiad awdurdodedig. O ystyried hyn, ni fydd ymestyn y | Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol newydd i'r derbynyddion traffig a thrafnidiaeth fel y nodir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig neu gais NMA 2021. |

| Pwnc | Arfarniad Amgylcheddol 2021 | Casgliad 2021 | Adolygiad o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol 2023 |
|---|---|---|---|
| | weithrediadau traffig. Lle nodwyd effeithiau sylweddol, cafodd mesurau lliniaru eu hamlinellu er mwyn lleihau, lle bo'n bosibl, effeithiau adeiladu a gweithredu'r Datblygiad, fel na phennwyd unrhyw effeithiau sylweddol gweddilliol.<br><br>Nododd y Datganiad Amgylcheddol y traffig adeiladu brig ym mis 7 a mis 29 y cam adeiladu, ond mae Gofyniad 2 y DCO yn caniatáu dechrau'r gwaith adeiladu hyd at fis Mawrth 2022. Felly, roedd y posibilrwydd o ddechrau adeiladu'r datblygiad awdurdodedig ar ôl i'r asesiadau brig a gyflwynir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig gael eu hystyried eisoes ym mhenderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i roi'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.<br><br>Nodwyd bod datblygiadau newydd yn cael eu cynnig ger y safle Datblygu ers i'r asesiad o'r effeithiau cronnus ar gyfer y Datblygiad gael ei gynnal yn Natganiad Amgylcheddol 2015. Mae un datblygiad arfaethedig yn cynnwys canolfan garbon isel a chanolfan ymwelwyr, a fyddai'n arwain at gynnydd posibl mewn traffig yn ardal safle'r Datblygiad (gweler Pennod 17 Effeithiau Cronnus isod), er nad oes cais wedi'i gyflwyno adeg ysgrifennu hwn. Fodd bynnag, tybir y byddai angen i effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol sy'n deillio o geisiadau cynllunio newydd yng nghyffiniau'r Datblygiad gael effeithiau cronnus wedi'u hasesu gyda'r Datblygiad yn y cais cynllunio a'r broses gydsynio ar gyfer y datblygiadau hyn ar ôl gwneud y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Dylai unrhyw ddatblygiadau eraill sydd wedi cael eu cyflwyno ers rhoi'r DCO fod wedi ystyried y Datblygiad ac ni chredir ei bod yn briodol cynnal asesiad cronnus newydd (ar y sail bod caniatâd eisoes wedi'i roi i'r Datblygiad).<br><br>Ar ben hynny, ni fyddai'r estyniad amser arfaethedig yn newid y llifau traffig adeiladu neu weithredu cysylltiedig na'r mesurau lliniaru i gyfyngu ar effeithiau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth fel sy'n cael eu darparu yn y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu a'r Cynllun Teithio (wedi'u diogelu gan ofynion y DCO).<br><br>O ystyried y byddai'r un traffig yn cael ei gynhyrchu i'r rhwydwaith ac y byddai'r mesurau lliniaru a nodir yn y CTMP a'r Cynllun Teithio yn parhau, ni fydd ymestyn y cyfnod ar gyfer dechrau adeiladu'r datblygiad awdurdodedig am 24 mis yn arwain at effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol, o'i gymharu ag asesiadau blaenorol. | cyfnod y gallai'r gwaith o adeiladu'r datblygiad awdurdodedig ddechrau 24 mis yn arwain at effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol o'u cymharu ag asesiadau blaenorol. Felly, ystyrir bod yr asesiadau a gyflwynir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn parhau i fod yn ddilys. | Ni fydd unrhyw effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol yn digwydd o ganlyniad i'r estyniad amser. Felly, ystyrir bod casgliadau'r Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn dal yn ddilys, gan gynnwys yr holl fesurau lliniaru arfaethedig a fydd yn cael eu sicrhau yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. |
| **Sŵn a Dirgrynu (Pennod 13);** | Roedd y Datganiad Amgylcheddol wedi penderfynu y rhagwelir y bydd y Datblygiad yn arwain at effeithiau sŵn gweithredol bach | Nid yw'r estyniad amser arfaethedig yn effeithio ar y prosesau adeiladu, gweithredu a | Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol newydd i'r derbynyddion sy'n sensitif i sŵn fel y nodir |

| Pwnc | Arfarniad Amgylcheddol 2021 | Casgliad 2021 | Adolygiad o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol 2023 |
|---|---|---|---|
| | iawn mewn NSRs, nad yw'n cael ei ystyried yn arwyddocaol. Roedd asesiad rhagarweiniol o sŵn posibl o offer wyneb yn ystod y cam adeiladu wedi penderfynu y gallai effeithiau hyd at effaith niweidiol fawr godi heb fesurau lliniaru. Roedd y Datganiad Amgylcheddol yn crynhoi y gellir lliniaru effeithiau traffig adeiladu drwy ddulliau rheoli, cynnal a chadw ffyrdd a monitro parhaus ac y byddai disgwyl iddo arwain at effeithiau tymor byr (llai na 5 mlynedd). Byddai hyn yn arwain at effeithiau nad ydynt yn fwy na mân effeithiau niweidiol ar yr NSRs yr effeithir arnynt waethaf, ac felly ystyrir nad ydynt yn sylweddol.<br><br>Ni fyddai'r estyniad amser arfaethedig yn cyflwyno unrhyw effeithiau ar adeiladu, gweithredu neu ddatgomisiynu posibl newydd ac ni ddisgwylir i'r amgylchedd llinell sylfaen newid yn sylweddol dros y cyfnod ymestyn o 24 mis. Fel yr amlinellir uchod yn y tabl hwn, nid oes unrhyw effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol mewn perthynas â thrafnidiaeth. Felly, ni fyddai unrhyw effeithiau sŵn a dirgrynu sylweddol newydd neu wahanol sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â thrafnidiaeth yn ystod y camau adeiladu neu ddatgomisiynu.<br><br>Ar ben hynny, mae'r mesurau lliniaru, digolledu a gwella sydd wedi'u nodi yn Adran 13.9 i gyfyngu ar gynhyrchu sŵn yn ystod y gwaith o adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r Datblygiad yn parhau i fod yn berthnasol petai estyniad amser yn digwydd cyn dechrau'r datblygiad awdurdodedig. | datgomisiynu ar gyfer y datblygiad awdurdodedig. O ystyried hyn, ni fydd ymestyn y cyfnod y gallai'r gwaith o adeiladu'r datblygiad awdurdodedig ddechrau 24 mis yn arwain at effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol o'u cymharu ag asesiadau blaenorol. Felly, ystyrir bod yr asesiadau a gyflwynir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn parhau i fod yn ddilys. | yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig neu gais NMA 2021.<br><br>Ni fydd unrhyw effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol yn digwydd o ganlyniad i'r estyniad amser. Felly, ystyrir bod casgliadau'r Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn dal yn ddilys, gan gynnwys yr holl fesurau lliniaru arfaethedig a fydd yn cael eu sicrhau yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. |
| **Ansawdd yr Aer (Pennod 14)** | Cynhaliwyd asesiad ansoddol i bennu'r effeithiau yn ystod cam adeiladu'r Datblygiad, a oedd wedi penderfynu nad oedd yr effeithiau posibl o ganlyniad i allyriadau cerbydau ffordd yn sylweddol. Penderfynwyd bod effaith gweddilliol llwch sy'n deillio o weithgareddau adeiladu yn debygol o fod yn niweidiol fach ac nid yn sylweddol.<br><br>Ni fyddai'r estyniad amser arfaethedig yn cyflwyno unrhyw effeithiau ar adeiladu, gweithredu neu ddatgomisiynu posibl newydd ac ni ddisgwylir i'r amgylchedd llinell sylfaen newid yn sylweddol dros y cyfnod ymestyn o 24 mis. Fel yr amlinellir uchod yn y tabl hwn, nid oes unrhyw effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol mewn perthynas â thrafnidiaeth. Felly, ni fyddai unrhyw effeithiau sylweddol newydd neu wahanol o ran | Nid yw'r estyniad amser arfaethedig yn effeithio ar y prosesau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu ar gyfer y datblygiad awdurdodedig. O ystyried hyn, ni fydd ymestyn y cyfnod y gallai'r gwaith o adeiladu'r datblygiad awdurdodedig ddechrau 24 mis yn arwain at effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol o'u cymharu ag asesiadau blaenorol. Felly, ystyrir bod yr asesiadau a gyflwynir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn parhau i fod yn ddilys. | Mae SPH wedi cwblhau monitro sylfaenol chwe mis (yn unol â Gofyniad 7) (gweler Atodiad D). Nid yw hyn wedi nodi unrhyw newidiadau sylweddol yn y waelodlin fel yr adroddwyd yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig. Yn ogystal, nid oes unrhyw Barthau Rheoli Ansawdd Aer wedi'u datgan yng Ngogledd Cymru ym mis Medi 2021.[2]<br><br>Ni fydd unrhyw effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol yn digwydd o ganlyniad i'r estyniad amser. Felly, ystyrir bod casgliadau'r Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn dal yn ddilys, gan gynnwys yr holl fesurau lliniaru arfaethedig a fydd yn cael |

[2] https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/APR-North-Wales-2021-Final-Issued.pdf

| Pwnc | Arfarniad Amgylcheddol 2021 | Casgliad 2021 | Adolygiad o’r Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol 2023 |
|---|---|---|---|
| | ansawdd yr aer sy’n gysylltiedig â thrafnidiaeth yn deillio o’r camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu.<br><br>Ar ben hynny, byddai’r mesurau lliniaru canlynol y dylid eu sicrhau drwy’r DCO yn dal yn berthnasol pe rhoddid estyniad amser ar gyfer dechrau’r datblygiad awdurdodedig:<br>▪ Rhaid gwneud y gwaith yn unol â Chynllun Rheoli Llwch (DMP) a CoCP; a<br>▪ Dylid gosod monitor ansawdd aer a llwch cyn ac yn ystod y cam adeiladu i sicrhau bod gweithredu’r CoCP yn rheoli llwch yn briodol | | eu sicrhau yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. |
| **Nodweddion economaidd-gymdeithasol (Pennod 16)** | Mae Pennod 15 yn dod i’r casgliad y bydd effeithiau cadarnhaol uniongyrchol ac anuniongyrchol ar yr economi leol yn ystod y cam adeiladu o ganlyniad i fwy o weithgareddau cyflogaeth a manteision anuniongyrchol drwy ddefnyddio mwy o gyfleusterau yn yr ardal. Yn ystod y cam gweithredu, bydd 20-35 o swyddi’n cael eu creu a bydd y Datblygiad yn arwain at nifer o fanteision net i’r economi leol a rhanbarthol. Mae’n debygol y bydd y tir Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW) a thir Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) yr effeithir arnynt yn cael eu dargyfeirio neu eu cau yn ystod y camau adeiladu a datgomisiynu. Fodd bynnag, mae’r effeithiau hyn yn rhai dros dro a, hefyd, bydd yr ardaloedd gwyro ac amnewid dros dro yn gwbl hygyrch yn ystod y cam adeiladu ac yna’n cael eu hadfer yn ystod y cam gweithredu. Bydd CTMP yn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o darfu ar draffig cymunedol a thwristiaid yn ystod y cam adeiladu.<br><br>Roedd y Datganiad Amgylcheddol yn asesu’r effeithiau adeiladu dros gyfnod adeiladu, ond mae Gofyniad 2 y DCO yn caniatáu dechrau’r gwaith adeiladu hyd at fis Mawrth 2022. Felly, roedd y posibilrwydd o ddechrau adeiladu’r datblygiad awdurdodedig ar ôl i’r asesiadau brig a gyflwynir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig gael eu hystyried eisoes ym mhenderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i roi’r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu.<br><br>Wrth ystyried yr effaith lefel isel debygol a’r cyfraniad bach a wneir gan y datblygiad awdurdodedig at elfennau fel twristiaeth neu gynnydd yn y boblogaeth, ni ystyrir y byddai amodau llinell sylfaen wedi newid i raddau a fyddai’n arwain at effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol yn sgil yr estyniad amser arfaethedig. Mae’r datblygiad awdurdodedig yn annhebygol iawn o gyfrannu at lefelau poblogaeth lleol ac felly ni fyddai’n cyfrannu at straen y boblogaeth ar wasanaethau lleol, ac ni ystyrir ei fod yn effeithio ar nodweddion twristiaeth lleol nac yn darparu swm sylweddol o gyflogaeth barhaol. | Nid yw’r estyniad amser arfaethedig yn effeithio ar y prosesau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu ar gyfer y datblygiad awdurdodedig. O ystyried hyn, ni fydd ymestyn y cyfnod y gallai’r gwaith o adeiladu’r datblygiad awdurdodedig ddechrau 24 mis yn arwain at effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol o’u cymharu ag asesiadau blaenorol. Felly, ystyrir bod yr asesiadau a gyflwynir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn parhau i fod yn ddilys. | Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol newydd i’r derbynyddion economaidd gymdeithasol fel y nodir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig neu gais NMA 2021.<br><br>Ni fydd unrhyw effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol yn digwydd o ganlyniad i’r estyniad amser. Felly, ystyrir bod casgliadau’r Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn dal yn ddilys, gan gynnwys yr holl fesurau lliniaru arfaethedig a fydd yn cael eu sicrhau yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. |

| Pwnc | Arfarniad Amgylcheddol 2021 | Casgliad 2021 | Adolygiad o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol 2023 |
|---|---|---|---|
| | Nodwyd bod datblygiadau newydd yn cael eu cynnig ger y safle Datblygu ers i'r asesiad o'r effeithiau cronnus ar gyfer y Datblygiad gael ei gynnal yn Natganiad Amgylcheddol 2015. Mae un datblygiad arfaethedig yn cynnwys canolfan ynni carbon isel a chanolfan ymwelwyr, a fyddai'n arwain at effeithiau ar elfennau economaidd-gymdeithasol lleoliad safle'r Datblygiad (gweler Pennod 17 Effeithiau Cronnus isod) er nad oes cais wedi'i gyflwyno adeg ysgrifennu'r cais. Fodd bynnag, tybir y byddai angen i effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol sy'n deillio o geisiadau cynllunio newydd yng nghyffiniau'r Datblygiad gael effeithiau cronnus wedi'u hasesu gyda'r Datblygiad yn y broses ceisiadau cynllunio a chaniatâd ar gyfer y datblygiadau hyn ar ôl gwneud y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Dylai unrhyw ddatblygiadau eraill sydd wedi dod i'r amlwg ers rhoi'r DCO fod wedi ystyried y Datblygiad ac ni chredir ei bod yn briodol cynnal asesiad cronnus newydd (ar y sail bod y Datblygiad eisoes wedi cael caniatâd).<br><br>Gan nad oes unrhyw newid i'r prosesau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu o ganlyniad i'r estyniad amser arfaethedig, bydd yr effeithiau ar fusnesau a thrigolion yn aros yr un fath. Felly, ystyrir bod yr asesiadau a gyflwynir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn parhau i fod yn ddilys. | | |
| **Asesiad Cronnol** | Daeth Pennod 17 i'r casgliad mai bach iawn yw'r effeithiau cyfun o fewn y prosiect ar dderbynyddion a rennir, ac nid ydynt yn debygol o ychwanegu at arwyddocâd cyffredinol effeithiau'r Datblygiad ac felly nid ydynt yn cael eu hystyried yn arwyddocaol.<br><br>Ni nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol rhwng prosiectau o ganlyniad i'r Datblygiad a datblygu'r cysylltiad trydanol ar gyfer y Datblygiad, Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd na Ffordd Osgoi Caernarfon i Bontnewydd.<br><br>Mae rhywfaint o wybodaeth wedi'i diweddaru bellach ar gael ers i Ddatganiad Amgylcheddol 2015 gael ei baratoi, gan gynnwys:<br>▪ *Dulliau* – Mae Cyngor IEMA a PINS a ddefnyddiwyd i lywio'r asesiad o'r effeithiau cronnus wedi cael ei ddiweddaru ers Datganiad Amgylcheddol 2015. Mae nodyn cyngor PINS 17 ar y broses ar gyfer Asesu Effeithiau Cronnus wedi cael ei ryddhau (V2 - Awst 2019).<br>▪ Cynlluniau neu Brosiectau Eraill – mae'n debygol y bydd cynlluniau a phrosiectau newydd yn cael eu caniatáu yn yr ardal gyfagos. Fodd bynnag, oherwydd natur yr ardal sydd wedi'i diogelu'n helaeth, mae'n debygol y bydd ychydig iawn o ddatblygiadau sylweddol ychwanegol ar wahân i ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd a'r seilwaith cysylltiadau trydanol (ac mae'r ddau'n cael eu hystyried eisoes). | Nid yw'r estyniad amser arfaethedig yn effeithio ar y prosesau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu ar gyfer y datblygiad awdurdodedig. O ystyried hyn, ni fydd ymestyn y cyfnod y gallai'r gwaith o adeiladu'r datblygiad awdurdodedig ddechrau 24 mis yn arwain at effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol o'u cymharu ag asesiadau blaenorol. Felly, ystyrir bod yr asesiadau a gyflwynir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn parhau i fod yn ddilys. | Ni fu unrhyw newid i'r dulliau a amlinellir ym mhennod y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig.<br><br>O ran y prosiectau a nodir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig:<br>▪ Cwblhawyd Ffordd Osgoi Caernarfon i Bontnewydd yn gynnar yn 2022 ac mae bellach yn weithredol<br>▪ Ni phenderfynwyd ar gais Wylfa Newydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac felly ni fydd y prosiect, yn ei ffurf a gyflwynwyd, yn mynd rhagddo.<br>▪ Ni chyflwynwyd cais ar gyfer y ganolfan ynni a gynigir ar blatfformau isaf Glyn Rhonwy.<br><br>Yn dilyn adolygiad o brosiectau y mae'n rhesymol eu rhagweld o'r meini prawf gofynnol, mae'r canlynol wedi'u nodi:<br>▪ Datblygiad tai (C21/0861/23/LL) o 39 o anheddau a seilwaith cysylltiedig. Mae'r cais yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac nid fu penderfyniad hyd yma. Mae tua 3.8km i'r gogledd orllewin |

| Pwnc | Arfarniad Amgylcheddol 2021 | Casgliad 2021 | Adolygiad o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol 2023 |
|---|---|---|---|
| | ▪ Wylfa – er bod cynlluniau swyddogol ar gyfer yr orsaf niwclear newydd (NNB) hon wedi dod i ben, mae'r penderfyniad ar y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, oedd i fod i gael ei wneud erbyn hyn, wedi cael ei ohirio tan 31 Rhagfyr 2020.<br><br>Nodwyd bod datblygiadau newydd yn cael eu cynnig ger y safle Datblygu ers i'r asesiad o'r effeithiau cronnus ar gyfer y Datblygiad gael ei gynnal yn Natganiad Amgylcheddol 2015. Mae un datblygiad arfaethedig a allai fod â'r potensial i greu effeithiau cronnus sylweddol tebygol newydd neu wahanol, yn uwch na'r rhai a ystyrir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig, yn cynnwys canolfan ynni carbon isel a chanolfan ymwelwyr, er nad oes cais cynllunio wedi'i gyflwyno adeg ysgrifennu'r cais. O ystyried bod y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu wedi cael ei wneud yn 2015, dylai unrhyw ganiatâd cynllunio dilynol ar gyfer unrhyw dderbynyddion preswyl sensitif newydd fod wedi ystyried effeithiau posibl adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r datblygiad awdurdodedig.<br><br>Dylai unrhyw ddatblygiadau eraill sydd wedi dod i'r amlwg ers rhoi'r DCO fod wedi ystyried y Datblygiad ac ni chredir ei bod yn briodol cynnal asesiad cronnus newydd (ar y sail bod y Datblygiad eisoes wedi cael caniatâd). | | Ar sail statws y prosiectau hynny a nodwyd yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig ac Arfarniad Amgylcheddol 2021, ar y cyd ag adolygiad diweddar, ystyrir nad oes unrhyw newid sylweddol mewn perthynas â phrosiectau cronnus.<br><br>Felly, gan na fydd unrhyw effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol yn digwydd o ganlyniad i'r estyniad amser, ystyrir bod casgliadau'r Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn dal yn ddilys gan gynnwys yr holl fesurau lliniaru arfaethedig a fydd yn cael eu sicrhau yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. |

# 4 Adolygiad o'r Polisi Cynllunio

## 4.1 Arfarniad 2021

Roedd Arfarniad Amgylcheddol 2021 wedi nodi a dod i'r casgliad canlynol mewn perthynas â pholisi cynllunio:

*Nid oes adolygiad manwl o'r polisïau cynllunio ym Mhennod 5 y Datganiad Amgylcheddol wedi cael ei gynnal fel rhan o'r ymarfer hwn, ond mae rhai o'r polisïau wedi'u diweddaru sy'n werth eu nodi yn cynnwys:*

- *Deddf Newid yn yr Hinsawdd – mae Deddf 2008 yn dal yn berthnasol ond mae rhai newidiadau wedi bod. Mae'r newidiadau amlwg yn cynnwys Diwygiad 2019 i'r Ddeddf sy'n ymrwymo'r DU i leihau ei hallyriadau net i sero erbyn 2050. Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y Prif Weinidog gynlluniau pellach i leihau allyriadau 68% erbyn 2030 ar sail lefelau 1990. Mae Dogfen Senarios Ynni'r Dyfodol 2020 y National Grid yn nodi bod storio ynni yn rhan annatod o gyflawni allyriadau Sero Net erbyn 2050, ac y bydd angen "Storio mwy helaeth am gyfnod hirach i gefnogi datgarboneiddio yn y senarios sero net" sydd wedi'u modelu.*
- *Storio a Hyblygrwydd – bu cyfeiriadau amrywiol pellach at storio fel technoleg i gefnogi hyblygrwydd y grid ers Datganiad Amgylcheddol 2015 (er enghraifft, 'Uwchraddio ein system ynni: systemau clyfer a chynlluniau hyblygrwydd' (Gorffennaf 2017).*
- *Polisi Cynllunio a Chanllawiau Cenedlaethol – mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol cyffredinol ar gyfer Ynni yn dal yn ddilys ond mae amrywiol strategaethau a chynlluniau lleol eraill wedi cael eu diweddaru e.e. Polisi Cynllunio Cymru, sydd bellach ar ei 10fed argraffiad (Rhagfyr 2018). Mae'n bosibl bod ei Nodiadau Cyngor Technegol ategol wedi cael eu newid hefyd.*
- *Cynllunio Gofodol – Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) ar gyfer Cymru gyfan yn nodi polisïau Llywodraeth Cymru ar ddatblygu a defnyddio tir mewn cyd-destun gofodol, ac yn disodli Cynllun Gofodol Cymru. Mae cyhoeddi'r FfDC wedi cael ei ohirio oherwydd pandemig COVID-19.*

*Ystyrir y bydd yr awdurdodau cynllunio perthnasol wedi ystyried y datblygiad awdurdodedig wrth baratoi'r cynlluniau drafft, yn enwedig wrth ddynodi unrhyw ddyraniadau tir newydd neu roi caniatâd ar gyfer datblygiadau preswyl newydd. Ni fydd ymestyn y cyfnod y gallai'r gwaith o adeiladu'r datblygiad awdurdodedig ddechrau 24 mis yn arwain at effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol o'u cymharu ag asesiadau blaenorol. Felly, ystyrir bod yr asesiadau a gyflwynir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig yn parhau i fod yn ddilys.*

## 4.2 Arfarniad 2023

Mae Arfarniad Amgylcheddol 2023 wedi nodi'r polisi cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol canlynol ac wedi dod i'r casgliad canlynol:

### 4.2.1 Polisi Cenedlaethol

#### 4.2.1.1 Datganiadau Polisi Ynni Cenedlaethol

Mae fersiynau drafft wedi'u diweddaru o'r Datganiadau Polisi Ynni Cenedlaethol wedi cael eu cynhyrchu ers Arfarniad Amgylcheddol 2021[3]. Nid yw'r datganiadau polisi hyn wedi cael eu dynodi eto, ond dylid eu monitro rhag ofn i'r cais gael ei gyflwyno ar ôl i'r datganiadau polisi hyn gael eu dynodi. Mae'r newidiadau'n atgyfnerthu pwysoliad cadarnhaol polisi cenedlaethol tuag at brosiectau ynni adnewyddadwy.

#### 4.2.1.2 Canllawiau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

Mae'r Canllawiau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel[4] wedi cael eu diweddaru ers 2021, ond mae'r diweddariadau'n canolbwyntio'n bennaf ar ganllawiau penodol gwell ynghylch storio batris, ac nid yw'r cymorth mae'r canllawiau'n ei ddarparu ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy a hydrodrydanol wedi newid.

#### 4.2.1.3 Cymru'r Dyfodol (A fabwysiadwyd ym mis Chwefror 2021)

Dim newidiadau ers 2021.

#### 4.2.1.4 Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11 (Mabwysiadwyd Chwefror 2021)

Dim newidiadau ers 2021.

#### 4.2.1.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (A fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2015)

Dim newidiadau ers 2021.

#### 4.2.1.6 Nodyn Cyngor Technegol 15 wedi ei ddiweddaru (TAN15)

Cynigiwyd mabwysiadu TAN15[5] ar 1 Mehefin 2023. Ar hyn o bryd, nid yw'r TAN wedi cael ei fabwysiadu ac nid oes dyddiad mabwysiadu diwygiedig wedi'i ddarparu. O'i gymharu â'r ddeddfwriaeth a fabwysiadwyd yn 2004, mae mwy o bwyslais ar atal datblygu mewn ardaloedd sydd â risg uwch o lifogydd, gofynion dyluniad a chadernid a lliniaru mwy caeth ar gyfer datblygu mewn parthau llifogydd. Er gwaethaf y newidiadau, ystyrir bod y mesurau presennol a sicrhawyd drwy'r DCO yn dal yn ddilys ac yn briodol.

---

[3] Ar gael yn: Planning for new energy infrastructure: revisions to National Policy Statements - GOV.UK (www.gov.uk)).
[4] Renewable and low carbon energy - GOV.UK (www.gov.uk)
[5] Nodyn cyngor technegol (TAN) 15: datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol | LLYW.CYMRU

#### 4.2.1.7 Nodiadau Cyngor Technegol Perthnasol Eraill:

Mae'r TAN canlynol wedi cael eu hadolygu ac nid oes unrhyw newidiadau wedi bod ers 2021 ac felly mae Arfarniad Amgylcheddol blaenorol 2021 yn dal yn ddilys:

- TAN 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (A fabwysiadwyd ym mis Medi 2009)
- TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (Mabwysiadwyd ym mis Gorffennaf 2010)
- TAN 10: Gorchmynion Cadw Coed (A fabwysiadwyd yn Hydref 1997)
- TAN 11: Sŵn (A fabwysiadwyd ym mis Hydref 1997)
- TAN 12: Dylunio (A fabwysiadwyd ym mis Mawrth 2016)
- TAN 15: Llifogydd (A fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf 2004)
- TAN 18: Trafnidiaeth (A fabwysiadwyd ym mis Mawrth 2017)
- TAN 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Mabwysiadwyd ym mis Hydref 2017)
- TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (A fabwysiadwyd ym mis Mai 2017)

### 4.2.2 Polisi Cynllunio Lleol

#### 4.2.2.1 Canllawiau Cynllunio Atodol Tirwedd Llechi Safle Treftadaeth y Byd Gogledd-orllewin Cymru[6] (A fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2021)

Mae'r polisi'n cydnabod natur gefnogol y CDLl tuag at brosiectau ynni adnewyddadwy, ond mae'n ychwanegu gofyniad i brosiectau ar Safle Treftadaeth y Byd gael eu 'datblygu'n unol â Gwerth Cyffredinol Eithriadol' Safle Treftadaeth y Byd. Yn ei hanfod, mae angen i gynigion ddefnyddio adnoddau naturiol heb effeithio ar Werth Cyffredinol Eithriadol.

Mae'r prif ddyfyniadau o'r CCA wedi'u cynnwys isod:

*Amcan 8 y cynllun rheoli eiddo:*

*Sicrhau bod uchelgeisiau ynni adnewyddadwy yn cael eu datblygu yn unol â Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd. Mae'r egwyddorion a amlinellir o dan yr amcan hwn yn datgan y bydd cynigion sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb effeithio ar Werth Cyffredinol Eithriadol yn cael eu cefnogi yn amodol ar ofynion Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031: Polisi Datblygu 3 a, lle bo hynny'n berthnasol, Polisi Strategol B (Chwefror 2019), a Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd.*

*Atodiad 3:*

[6] Tirwedd Llechi Safle Treftadaeth y Byd Gogledd-orllewin Cymru (llyw.cymru)

*Mae ynni adnewyddadwy yn cael ei ystyried yn ddatblygiad mawr: Ystyriaethau cynllunio ar gyfer ceisiadau mawr:*

- *Mae angen Datganiad Dylunio a Mynediad.*
- *Mae angen ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio.*
- *Y goblygiadau cyffredinol ar Safle Treftadaeth y Byd, ei leoliad hanfodol, golygfeydd arwyddocaol, a'r ardaloedd cyfagos.*
- *Sicrhau y cydymffurfir â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol.*
- *Goblygiadau ehangach o ran y dirwedd/lleoliad sy'n deillio o gynigion mwy.*
- *Efallai y bydd angen EIA.*
- *Ystyried unrhyw fesurau lliniaru priodol.*

Mae cornel ogledd-ddwyreiniol y safle yn ymestyn i Llyn Padarn yn rhan 2, Tirlun Mynydd Chwarel Llechi Dinorwig, Safle Treftadaeth y Byd. Fodd bynnag, mae'r 'golygfeydd arwyddocaol' a'r elfennau allweddol ar gyfer yr ardal tirwedd hon ar draws y llyn o'r datblygiad arfaethedig tua'r dwyrain. Felly, ystyrir bod y casgliadau a'r mesurau presennol a sicrhawyd drwy'r DCO yn dal yn ddilys.

### 4.2.3 Crynodeb

Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i unrhyw ddeddfwriaeth leol arall na deddfwriaeth newydd wedi codi ers 2021.

# 5 Casgliad

Daeth Arfarniad Amgylcheddol 2023 i'r casgliad canlynol:

- Ni nodwyd unrhyw newidiadau o'r gwerthusiad hwn a fyddai'n arwain at unrhyw effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol o'i gymharu â chanfyddiadau a gyflwynir yn y Datganiad Amgylcheddol ardystiedig, neu na fyddai wedi cael sylw fel arfer mewn cydsyniadau cynllunio dilynol yn yr ardal gyfagos.
- Ni fyddai ymestyn yr amser yn newid unrhyw fesurau lliniaru y cytunwyd arnynt yn flaenorol, a byddai'r un ymrwymiadau yn y DCO i gyfyngu ar yr effeithiau ar dderbynyddion yn parhau i fod yn berthnasol pe bai estyniad i'r cyfnod ar gyfer dechrau'r datblygiad awdurdodedig.
- Nid yw arfarniad amgylcheddol 2023 wedi nodi unrhyw effeithiau sylweddol tebygol newydd neu wahanol o'i gymharu â chanfyddiadau blaenorol yr asesiad ac felly ystyrir y byddai'r estyniad amser arfaethedig yn golygu newid ansylweddol at ddibenion Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Newid a Dirymu Gorchmynion Caniatâd Datblygu) 2011.
- Nododd Arfarniad Cynllunio 2023 na fu unrhyw newidiadau mewn perthynas â pholisi Cynllunio. Felly, ni fyddai'r estyniad amser arfaethedig yn golygu newid sylweddol ac mae casgliadau'r datganiad cynllunio gwreiddiol yn dal yn ddilys.

WSP House
70 Chancery Lane
London
WC2A 1AF

**wsp.com**

Nid yw WSP UK Limited yn gwneud unrhyw warantau, gwirioneddol nac ymhlyg, mewn perthynas â’r adroddiad hwn, na’r effaith fasnachol, dechnegol, economaidd neu ariannol yn y pen draw ar y prosiect y mae’n ymwneud ag ef, ac nid yw’n ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd sy’n gysylltiedig â’i ddefnydd ac eithrio fel y nodir yn y contract y cafodd ei gyflenwi oddi tano.